Coleg y Celfyddydau, Dyniaethau a Busnes
College of Arts, Humanities and Business

PRIFYSGOL BANGOR UNIVERSITY

Llawlyfr Ymchwil Ôl-radd 2019–2020

Croeso i Goleg y Celfyddydau, Dyniaethau a Busnes ym Mhrifysgol Bangor! Mae Coleg y Celfyddydau, Dyniaethau a Busnes ym Mhrifysgol Bangor yn gartref i amrywiaeth eang o feysydd pwnc a Chanolfannau Ymchwil, yn cynnwys cerddoriaeth ac astudiaethau'r cyfryngau, busnes, y gyfraith, ieithoedd a diwylliannau modern, Cymraeg ac astudiaethau Celtaidd, astudiaethau creadigol, newyddiaduraeth, astudiaethau ffilm, iaith a llenyddiaeth Saesneg, hanes ac archeoleg, ieithyddiaeth, athroniaeth ac astudiaethau crefydd.

Yng Ngholeg y Celfyddydau, Dyniaethau a Busnes, rydym yn falch o ansawdd ac ehangder ein hymchwil, a gafodd ei chydnabod i fod gyda'r orau yn y byd, neu'n rhagorol yn rhyngwladol, yn Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil 2014. Mae ein gwaith, yn waith ymchwil ac ymarferol, yn golygu ein bod yn cydweithio gyda phrifysgolion eraill yng Nghymru, y DU ac yn fyd-eang, ac mae'n golygu ein bod yn creu cysylltiadau gyda'r cymunedau o'n cwmpas a'r tu hwnt i'r byd academaidd. P'un ai fel ymchwilwyr cyfranogol mewn projectau ymchwil ar y cyd, fel aelodau o ddiwylliannau ymchwil Ysgolion y Coleg, ac fel ymchwilwyr ar ddechrau eich gyrfa eich hunain, mae myfyrwyr ôl-radd yn chwarae rhan bwysig iawn yng Ngholeg y Celfyddydau, Dyniaethau a Busnes.

Yn ystod eich cyfnod fel ymchwilydd doethuriaeth yn CCDB ym Mangor byddwch yn elwa o gyfleusterau, adnoddau a digwyddiadau sydd wedi eu creu gyda chi a'ch anghenion mewn golwg. Yn y Llawlyfr hwn ceir rhestr o gysylltiadau defnyddiol, cefnogaeth ac adnoddau defnyddiol, sgiliau hyfforddi ôl-raddedig, a'r gweithgareddau diwylliannol a chymdeithasol bywiog o'ch cwmpas. Gobeithiaf y byddwch yn mwynhau eich amser a'ch astudiaethau academaidd yng Ngholeg Celfyddydau, Dyniaethau a Busnes Prifysgol Bangor, ac y byddwch yn ffynnu fel ymchwilydd yma!

Dr Helena Miguélez-Carballeira
Cyfarwyddwr Astudiaethau Ôl-radd, Coleg y Celfyddydau, Dyniaethau a Busnes

Cysylltiadau a Swyddogaethau

Dr Helena Miguélez-Carballeira	Cyfarwyddwr Ymchwil Ôl-radd CCDB h.m.carballeira@bangor.ac.uk	- Gellwch drefnu apwyntiad gyda Dr Miguélez-Carballeira i drafod unrhyw agwedd ar eich profiad ôl-radd yn CCDB
Mrs Julie Boulton **Mrs Gwenda Pritchard** **Mrs Eleri Thomas**	Gweinyddwyr Myfyrwyr Ymchwil Ôl-raddedig j.a.boulton@bangor.ac.uk Cerddoriaeth a'r Cyfryngau, Busnes, Llenyddiaethau, Ieithoedd ac Ieithyddiaeth, Y Gyfraith g.pritchard@bangor.ac.uk Hanes, Gwyddorau Cymdeithas ac Athroniaeth, Cymraeg Swyddog Cefnogi Ymchwil Ôl-radd y Coleg e.m.thomas@bangor.ac.uk	- Ymholiadau ynglŷn â chyflwyno eich theses MPhil/PhD (e.e. ffurflenni SD1) - Cofrestru ar gyfer digwyddiadau datblygu ôl-radd CCDB - Ymholiadau ynglŷn â'ch seremoni raddio - Cyflwyno eich cais am ysgoloriaeth deithio i ymchwilwyr doethurol CCDB
Arweinydd Ymchwil Ôl-radd eich Ysgol (Arweinydd PGR)	Gweler y Cyfeiriadur isod	- Dod yn Gynrychiolydd Cwrs Ôl-radd (Ymchwil) yn eich Ysgol - Arweinydd PGR eich Ysgol sy'n trefnu eich cyfarfodydd Adolygiad Blynyddol, mewn cydweithrediad â'ch goruchwylwyr. Arweinydd PGR eich Ysgol hefyd yw eich Tiwtor Personol oni bai y nodir fel arall
Eich Goruchwyliwr/Goruchwylwyr Academaidd	Gweler eich Llythyr Derbyn	- Eich Goruchwyliwr/Goruchwylwyr Academaidd sy'n cyfarwyddo goruchwyliaeth eich thesis ac yn monitro eich cynnydd academaidd yn rheolaidd - Eich prif Oruchwyliwr Academaidd yw'r pwynt cyswllt ar gyfer unrhyw fater academaidd

Arweinwyr Ymchwil Ôl-radd fesul Ysgol

Ysgol Cerddoriaeth a'r Cyfryngau	Yr Athro Pwyll Ap Sion papsion@bangor.ac.uk +44 (0) 1248 383808
Ysgol Ieithoedd, Llenyddiaethau ac Ieithyddiaeth	Dr Eirini Sanoudaki e.sanoudaki@bangor.ac.uk +44 (0)1248 388638
Ysgol Hanes, Athroniaeth a Gwyddorau Cymdeithas	Dr Robin Mann r.mann@bangor.ac.uk +44(0)1248 382232
Ysgol y Gymraeg ac Astudiaethau Celtaidd	Ar Athro Gerwyn Wiliams g.wiliams@bangor.ac.uk +44 (0)1248 382241
Ysgol y Gyfraith	Dr Wei Shi w.shi@bangor.ac.uk +44 (0)1248 382518
Ysgol Busnes	Dr Gwion Williams gwion.williams@bangor.ac.uk +44(0)1248 383959

Hyfforddiant a Chefnogaeth

Yn ogystal â'r gefnogaeth y byddwch yn ei chael gan eich tîm goruchwylio academaidd, byddwch yn manteisio oddi wrth bortffolio amrywiol Ysgol Graddedigion Coleg y Celfyddydau, Dyniaethau a Busnes o ddigwyddiadau a gweithgareddau datblygu ymchwil. Cynlluniwyd y rhain i'ch helpu i ddod yn ymchwilydd medrus gyda'r holl sgiliau uwch ym maes ymchwil a chyfathrebu sydd eu hangen i yrfa yn y byd academaidd heddiw. Eu bwriad hefyd yw eich annog i gyfarfod â'ch cyd-fyfyrwyr a staff ymchwil eraill ar draws disgyblaethau. Cofiwch wneud y gorau o'r cyfleoedd hyn! Byddwch yn derbyn gwybodaeth am y gweithdai hyn yn rheolaidd trwy e-bost gan Gyfarwyddwr Ymchwil Ôl-raddedig y Coleg a byddwch yn gallu cofrestru ar eu cyfer trwy Galendr Digwyddiadau CAHB: https://www.bangor.ac.uk/arts-humanities-and-business/digwyddiadau

Eich cymuned

Fel myfyriwr doethuriaeth ym Mangor byddwch yn datblygu cysylltiadau gwaith agos a chyfeillgarwch gyda chydweithwyr yn eich Ysgol chi ac ar draws y Coleg a'r Brifysgol. Byddwn yn trefnu digwyddiadau gydol y flwyddyn lle gallwch gymdeithasu a chydweithio gyda chymunedau ymchwil perthnasol i'ch maes. Mae mynd i Fforwm Ymchwil eich Ysgol yn ffordd wych o gyfarfod ag eraill. Felly hefyd y Caffi Ôl-radd y byddwn yn ei drefnu bob semester lle gallwch ddod i gymdeithasu gyda'ch cyfoedion. I gael y wybodaeth ddiweddaraf am eich cymuned ôl-radd yn CCDB, dilynwch @CAHpostgrad ar Twitter.

Eich lle

Yn CCDB mae gennym sawl man astudio at ddefnydd myfyrwyr ôl-radd yn unig, yn cynnwys Darllenfa'r Dyniaethau ar ail lawr Llyfrgell Prif Adeilad y Celfyddydau ac Ystafell Astudio PhD Prif Adeilad y Celfyddydau, o flaen Caffi'r Teras (gellir cael allwedd yr ystafell hon am flaendal o £5). Bydd gan eich Ysgol hefyd ystafelloedd astudio neu ystafelloedd cyfrifiaduron at ddefnydd myfyrwyr ôl-radd yn unig. Hefyd, cymerwch olwg ar ganolfan ôl-radd y Brifysgol yn Adeilad Thoday. Anogir myfyrwyr ôl-radd i ddefnyddio'r lle ar gyfer cyfarfodydd, digwyddiadau cymdeithasol a gweithdai.

Eich llais

Yng Ngholeg y Celfyddydau, Dyniaethau a Busnes rydym yn gwrando ar y gymuned ôl-radd mewn sawl ffordd: 1) rydym yn casglu'r adborth a roddwch inni yn yr arolygon PTES a PRES, sy'n galluogi'r Brifysgol i sicrhau bod ein myfyrwyr yn cael y profiad ôl-radd gorau posibl; 2) rydym yn gwrando ac yn gweithredu ar y materion a gyflwynir inni gan Gynrychiolwyr Myfyrwyr Ôl-radd ym Mwrdd Astudiaethau'r Ysgolion (a gynhelir ddwywaith bob semester) a'r Pwyllgor Staff-Myfyrwyr Ôl-radd (a gynhelir ddwywaith bob semester). Os hoffech fod yn Gynrychiolydd Myfyrwyr Ôl-radd, cysylltwch â Chyfarwyddwyr Astudiaethau Ôl-radd eich Ysgol.

Cyllid yn CCDB

Gall myfyrwyr MPhil a PhD yn CCDB fod yn gymwys i wneud cais am fwrsariaeth deithio tra byddant yn gofrestredig er mwyn mynd i gynhadledd academaidd neu ymweld ag archif/llyfrgell academaidd berthnasol. Caiff pob cais ei asesu yn ôl ei deilyngdod ei hun, ac ni fydd y fwrsariaeth a roddir i unrhyw fyfyriwr ôl-radd unigol yn fwy na chyfanswm o £150 mewn unrhyw flwyddyn academaidd. Er mwyn cael rhagor o fanylion ewch i: https://www.bangor.ac.uk/arts-humanities-and-business/training-and-support.php.cy

Mae CAHB hefyd yn cynnig cefnogaeth weinyddol a chyfathrebu gyda sefydliad cynadledda ôl-raddedig. Os ydych chi'n ystyried trefnu cynhadledd ôl-raddedig ym Mhrifysgol Bangor, cysylltwch â Chyfarwyddwr Ymchwil Ôl-raddedig CAHB yn y lle cyntaf i drafod hyn ymhellach.